Newyddion Ysgolion a Llywodraethwyr

Tymor y Gwanwyn 2010

Yn y rhifyn hwn. .

- Cymdeithas Llywodraethwyr Powys
- Moderneiddio Ysgolion Tachwedd 2009
- 50fed Baner Werdd Eco-Sgolion yn cael ei wobrwyo ym Mhowys
- Y Diweddaraf ar Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Mwy Galluog a Thalentog

CYMDEITHAS LLYWODRAETHWYR POWYS

Yn y gyfres ddiweddar o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn Y Trallwng, Llandrindod ac Aberhonddu i drafod lansiad Cymdeithas Llywodraethwyr Powys, cytunwyd y caiff Cymdeithas ei ffurfio yn syth.

Trafodwyd y cylch gorchwyl drafft, ac un newid yw y bydd y cyfarfodydd yn agored i unrhyw lywodraethwyr sydd eisiau mynychu, yn hytrach na chael eu cyfyngu i un llywodraethwr o bob ysgol.

Diben y Gymdeithas fydd:

- ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyfeiriad strategol addysg ym Mhowys er mwyn sicrhau Effeithiolrwydd yr Ysgol.
- hyrwyddo'r arfer orau o ran llywodraethu ysgolion o fewn Awdurdod Lleol Powys
- cryfhau'r bartneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a Llywodraethwyr Ysgol
- gwella gweithdrefnau cyfathrebu ac ymgynghori
- datblygu perchnogaeth o'r agenda gwella ehangach y tu hwnt i'r ysgol unigol.

"Mae Cymdeithas Llywodraethwyr newydd Powys yn gyfle cyffrous i Lywodraethwyr ddod ynghyd ar lefel rhanbarthol i rannu a datblygu syniadau yn ymwneud â strategaethau a pholisïau addysgol. Ymhellach, os byddwn ni fel Llywodraethwyr yn ymrwymo'n llwyr i'r broses, y canlyniad fydd cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion a hefyd rhwng Llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol."

Wyn Owen, Cadeirydd – Gogledd Powys

Ym mhob un o'r cyfarfodydd, etholwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i wasanaethu ar Bwyllgor Gweithredol y Gymdeithas, a diben y pwyllgor fydd cydlynu gwaith y Gymdeithas. Bydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr o bob ardal hefyd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon fel a ganlyn:

Gogledd Powys
Cadeirydd – Wyn Owen - Is-Gadeirydd Ysgol Uwchradd Caereinion
Is-Gadeirydd – Adrian Roberts - Cadeirydd Ysgol Gynradd Llanidloes
Rhiant Lywodraethwr – Chris Himsworth - Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Aberriw

Canol Powys
Cadeirydd – Nigel Morgan - Cadeirydd yn Ysgol Dame Anna Child's, Chwityn
Is-Gadeirydd – Ruth Parry Wright - Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Llandrindod
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr – Gareth Davies - Is-Gadeirydd Ysgol Gynradd Pontffranc

De Powys
Cadeirydd – Jackie Williams - Cadeirydd Ysgol Gynradd Llanfaes
Is-Gadeirydd – Sian Cooper - Is-Gadeirydd Ysgol y Bannau
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr – Alun Thomas - Cadeirydd Ysgol Gynradd Penycae

Yn parhau ar dudalen 2

Powys

Parhad o'r dudalen gyntaf..

Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gweithredol ar ddydd Mercher 20 Ionawr, pan osodir yr agenda ar gyfer cyfarfodydd Tymor y Gwanwyn. Os hoffai unrhyw gorff llywodraethol gynnig eitem agenda ar gyfer y cyfarfodydd, cysylltwch â'r Swyddog Hyfforddi a Datblygu Llywodraethwyr, Beth Groves, ar 01597 826402 neu anfonwch e-bost at beth.groves@powys.gov.uk erbyn dydd Gwener 15 Ionawr 2010.

Bydd y Gymdeithas yn cwrdd ar y dyddiadau canlynol yn ystod Tymor y Gwanwyn:

Gogledd Powys – Dydd Mercher 3 Mawrth 2010 yn Neuadd Maldwyn, Y Trallwng
Canol Powys – Dydd Llun 1 Mawrth 2010 yn Neuadd Sir Powys, Llandrindod
De Powys – Dydd Llun 8 Mawrth 2010 yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu

Bydd yr holl gyfarfodydd yn dechrau am 7.00 p.m. ac yn gorffen erbyn 8.30 p.m.

Gobeithio y bydd nifer dda yn mynychu cyfarfodydd y Gwanwyn i sicrhau y bydd y dull newydd hwn o fynd ati yn llwyddiannus.

Ian Roberts - Prif Ymgynghorydd: Ysgolion a Chynhwysiant

MODERNEIDDIO YSGOLION TACHWEDD 2009

Mae'r adolygiad Moderneiddio Ysgolion yn Nalgylch Maesydderwen wedi parhau yn ystod Tymor yr Hydref, ac mae'r ffocws wedi bod ar adnabod lleoliad y pedair ysgol newydd sydd i gael eu datblygu yn yr ardal. Mae'r Bwrdd Prosiect Ardal eisoes wedi cytuno i symud o'r model 10 ysgol gynradd presennol ar gyfer darpariaeth addysgol i fodel 4 ysgol gynradd. Gobeithir y bydd Bwrdd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a Bwrdd y Cyngor yn cymeradwyo'r pedwar safle cyn diwedd Rhagfyr, fel y gellir dechrau ymgynghori'n ffurfiol ar y cynigion yn y Flwyddyn Newydd.

Bydd yr adolygiad Moderneiddio Ysgolion o addysg yn Nalgylch Maesydderwen yn gweld gweithrediad cynigion ar gyfer rhesymoli addysg gynradd yn yr ardal, ond hefyd, bydd yn gweld buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd mewn addysg uwchradd ar gyfer yr ardal yn Ysgol Maesydderwen.

Ym mis Hydref, dechreuwyd yr adolygiad addysgol o ardal dalgylch Gwernyfed, gyda chyfarfod cyntaf y Bwrdd Prosiect Ardal. Ar hyn o bryd, mae 10 ysgol gynradd yn gwasanaethu Ardal Gwernyfed. Mae Bwrdd Prosiect Ardal Dalgylch Gwernyfed yn cynnwys y canlynol:

- Cynrychiolydd o bob ysgol yn y dalgylch
- Swyddogion o'r Awdurdod sy'n cynrychioli nifer o feysydd gwasanaeth e.e. addysg, gwasanaeth ieuenctid, hamdden a gwasanaethau cymdeithasol
- Cynrychiolwyr sefydliadau eraill e.e. Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol, Bwrdd Iechyd Lleol, PAVO

Disgwylir y bydd Bwrdd Prosiect Ardal Dalgylch Gwernyfed mewn sefyllfa i wneud argymhellion ynglŷn â dyfodol darpariaeth addysgol yn yr ardal erbyn Hydref 2010.

Cyflwynwyd papur Moderneiddio Ysgolion i Fwrdd Rhaglen Strategol y Cyngor ar 10 Tachwedd. Cafodd yr argymhelliad i swyddogion gymryd rhan mewn trafodaethau anffurfiol gyda Chyrff Llywodraethol ysgolion sydd â llai na 35 o ddisgyblion nad ydynt yn rhan o broses adolygiad ardal ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Caiff papur Moderneiddio Ysgolion arall ei gyflwyno i Fwrdd y Cyngor cyn y Nadolig, a fydd yn dechrau'r broses o adolygu addysg uwchradd o fewn yr Awdurdod cyfan. Cynllunnir y bydd mwy o fanylion am y broses hon yn y rhifyn nesaf o'r cylchlythyr Llywodraethwyr.

Darren Jones, Rheolwr Cymorth Moderneiddio Ysgolion

50FED BANER WERDD ECO-SGOLION YN CAEL EI WOBRWYO YM MHOWYS

Ysgol GG Aberriw

Mae'r rhaglen Eco-Sgolion yn fenter ryngwladol sy'n annog disgyblion i ymwneud â materion amgylcheddol a datblygu cynaladwy. Mae'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y rhaglen yn cynnwys: Sbwriel, Lleihau Gwastraff, Cludiant, Byw'n Iach, Ynni, Dŵr, Tir yr Ysgol a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Mae'r Faner Werdd Eco-Sgolion Rhyngwladol, a wobrwyir i ysgolion am gyrhaeddiad uchel yn eu rhaglen, yn label gwerthfawr o berfformiad mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaladwy. Ysgol Gynradd Aberriw yw'r 50fed ysgol ym Mhowys i ennill y Faner Werdd.

Dywed aelodau'r pwyllgor Eco-Ysgol: "Rydym wedi dod at ein gilydd fel tîm, gan feddwl am ein syniadau ein hunain a gwneud penderfyniadau y mae pawb yn yr ysgol yn gysylltiedig â hwy. Rydym wedi annog disgyblion a staff Ysgol Aberriw i fwyta'n iach, i aros yn weithgar ac i helpu'r amgylchedd mewn nifer o ffyrdd, fel anfon sbwriel i safleoedd tirlenwi a datblygu ein hardaloedd bywyd gwyllt. Yn ddiweddar, rydym wedi creu rota i'r ysgol ar gyfer gwagio'r biniau compost pan maent yn llawn, ac i godi unrhyw sbwriel".

Mae 97% o ysgolion Powys yn aelodau o'r cynllun, ac mae dros 50 o ysgolion wedi derbyn y Faner Werdd fawreddog. Erbyn hyn, Powys sydd â'r ail nifer fwyaf o ysgolion sydd â Baner Werdd trwy Gymru. Mae ysgolion Cyn-ysgol, Cynradd, Uwchradd ac Arbennig yn aelodau o'r cynllun.

Am fwy o wybodaeth am y cynllun ym Mhowys – cysylltwch â Yan James, Swyddog Gwella Ysgolion ar 01874 612041 neu anfonwch e-bost at: yan.james@powys.gov.uk

Y DIWEDDARAF AR ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Rwy'n croesawu'r cyfle ar ran y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol i roi'r diweddaraf i chi ar ddatblygiadau o fewn y gwasanaeth. Ymhlith y cyfleoedd cyffrous niferus, mae yna adegau wedi bod pan nad oedd 24 awr y dydd yn ddigon. Fel Gwasanaeth, rydym yn sylweddoli fod angen i ni wella sut yr ydym yn ymgysylltu â'n hysgolion, a sut yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i reoli disgwyliadau ein hysgolion a'u cymunedau.

Yn Nhymor yr Hydref 2007, lansiodd yr Awdurdod y Pecyn Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Drafft ar gyfer Ysgolion. Cynlluniwyd y pecyn cymorth hwn i'w wneud mor syml â phosibl i ysgolion "adnabod, asesu a darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig" o fewn canllawiau'r Côd Ymarfer AAA. Rydym yn ddiolchgar i ysgolion am eu sylwadau adeiladol yn dilyn y lansiad. Yn 2010, bydd y copi terfynol ar gael, sy'n cynnwys penodau ychwanegol. Cadwch lygad allan am hyn.

Uchafbwynt y flwyddyn ar gyfer y Tîm ADY yw cael y cyfle i gwrdd â holl Gydlynwyr AAA Powys. Rydym wedi derbyn graddau uchel iawn ar gyfer y digwyddiadau hyfforddi hyn, a ariennir yn ganolog. Yn unol â'r Côd Ymarfer AAA, rhaid i ysgolion ddynodi Cydlynydd AAA, a disgwylir i'r Corff Llywodraethol ddynodi llywodraethwr i arwain ar AAA. Pan mae yna bartneriaeth gweithio da rhwng y SENCo a'r Llywodraethwr, mae yna ganlyniadau da i ddisgyblion sydd â rhwystrau i ddysgu.

Ym mis Medi 2009, fe wnaethom rannu canlyniad y Grŵp Ariannu Gorchwyl a Gorffen AAA gyda SENCos a Phenaethiaid. Ar hyn o bryd, mae'r model ariannu AAA LMS gydag ysgolion ar gyfer ymgynghori. Yn sicr, cytunir fod angen i'r "fformwla" arfaethedig newydd ystyried natur amrywiol Powys; i gael ei gymhwyso'n deg ac yn gyson, a rhaid iddo osgoi gwaith ychwanegol. Gwahoddwyd ysgolion Powys i gynnig awgrymiadau ar gyfer mwy o "ddirprwyo" cyllid AAA. Hefyd, croesewir awgrymiadau gan lywodraethwyr ysgol.

Ann Thomas, Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol

MWY GALLUOG A THALENTOG

Mae'r term Mwy Galluog a Thalentog (MGT) yn cynnwys oddeutu 20% o holl boblogaeth ysgolion Cymru, ac fe'i ddefnyddir i ddisgrifio disgyblion sy'n fwy galluog a thalentog mewn un neu fwy o feysydd cwricwlwm, neu sydd wedi dangos talent arbennig, a all fod yn sgiliau arweinyddiaeth gref, y gallu i weithio mewn tîm neu sgiliau entrepreneuraidd. Mae gan ddisgyblion mwy galluog a thalentog anghenion dysgu ychwanegol, gan fod angen cyfleoedd ar gyfer cyfoethogiad ac ymestyn arnynt, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ddarperir ar gyfer y cohort cyffredinol o ddisgyblion.

Wrth ddiffinio mwy galluog a thalentog o bersbectif Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi llunio tair dogfen sydd ar gael ar wefan LICC (www.cymru.gov.uk):

- Cylchlythyr Rhif: 006/2008 'Cyflawni'r Her – Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog' (Mai 2008)
- Cylchlythyr Rhif: 47/2006 'Cynhwysiant a Chefnogi Disgyblion' (Tachwedd 2006)
- Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad (cwrdd ag anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog) (ACCAC 2003)

Mae ymchwil addysgol a thystiolaeth o arolygiadau ysgolion yn dangos y bydd gwneud darpariaeth i gwrdd ag anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog yn elwa'r holl ddisgyblion; mae ysgolion sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog yn ymdrechu i wella ansawdd addysgu a dysgu, ac maent yn effeithiol wrth godi safonau cyrhaeddiad ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Er nad oes dyletswydd statudol i gael llywodraethwr dynodedig sy'n gyfrifol am ddisgyblion mwy galluog a thalentog, caiff hyn ei ystyried yn arfer effeithiol gan Lywodraethwyr Cymru a Gwasanaeth Arolygu Estyn. Mater ar gyfer pob corff llywodraethol a phennaeth yw penderfynu lle mae'r rôl yn ffitio orau a beth ddylai'r rôl fod.

Mae'r Awdurdod yn darparu cymorth a chyfarwyddyd i ysgolion mewn perthynas ag adnabod a rheoli darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog – cysylltwch â Sian Fielding ar 01597 826705 neu anfonwch e-bost at **sian.fielding@powys.gov.uk** am gyngor neu gymorth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd ar y gwefannau canlynol:
www.cymru.gov.uk; www.llywodraethwyrcymru.org.uk;
www.nace.co.uk;
www.teachernet.gov.uk/teachingandlearning/gandtpupils/;
www.ygt.dcsf.gov.uk

Sian Fielding
Swyddog Gwella Ysgolion / Prif Swyddog ar gyfer Mwy Galluog a Thalentog

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu ● Printed on recycled paper

Ffôn: 01597 826402 E-bost: beth.groves@powys.gov.uk
Ysgolion a Chynhwysiant, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys. LD1 5LG

POLISÏAU YSGOLION

Dyma restr o'r polisïau a dogfennau y mae angen i Gyrff Llywodraethol eu cael:

POLISÏAU STATUDOL

(Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith fod y rhain yn cael eu pennu, eu mabwysiadu a'u gweithredu gan gyrff llywodraethol)

- **Polisi Derbyniadau** Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Sefydledig (Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion a Reolir os yw'r AALl yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb iddynt): *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (SSFA) 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002; Côd Ymarfer y Swyddfa Gymreig ar Dderbyniadau i Ysgolion 1999*
- **Polisi Codi Tâl** Pob Ysgol (Dylai Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol ymgynghori â'u AALl) Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999; Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Diwygio) (Cymru) 2002
- **Gweithdrefnau Cwynion** Pob Ysgol Adran *29 o Ddeddf Addysg 2002; Gweithdrefnau Cwynion Cyrff Llywodraethol Ysgolion – Cylchlythyr 03/2004; Cyfarwyddyd i Gyrff Llywodraethol Ysgolion ar Weithdrefnau ar gyfer Cwynion sy'n Cynnwys Disgyblion – Cylchlythyr Rhif 39/2006. Deellir y caiff cyfarwyddyd diwygiedig gan y Cynulliad ei ddosbarthu yn 2009-10*
- **Polisi Amddiffyn Plant** Pob Ysgol *Deddf Addysg 2002, Adran 175; Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc – Cylchlythyr 34/2002; Diogelu Plant mewn Addysg – Cylchlythyr 005/2008*
- **Polisi Cwricwlwm** Pob Ysgol *Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith)(Cymru) 2000; Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002*
- **Polisi Iechyd a Diogelwch** ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Sefydledig *Gweler Canllaw Llywodraethwyr Ysgol i'r Gyfraith am fanylion deddfwriaeth berthnasol*
- **Polisi Cyflog** Pob Ysgol *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2007*
- **Rheoli Perfformiad** Pob Ysgol *Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2000; Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002; Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002*
- **Polisi Disgyblaeth Disgyblion (yn cynnwys Gwrth-Fwlio)** Pob Ysgol Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998; Parchu Eraill: Cyfarwyddyd Gwrth-Fwlio – Cylchlythyr 23/2003
- **Polisi Cydraddoldeb Hiliol/Polisi Cyfle Cyfartal** Pob Ysgol *Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000; Gweler Canllaw Llywodraethwyr Ysgol i'r Gyfraith am fanylion deddfwriaeth berthnasol*
- **Amseroedd Sesiynau'r Ysgol** *Rheoliadau Newid Amseroedd Sesiynau'r Ysgol (Cymru) 2000*
- **Polisi Addysg Rhyw** Rhaid i bob ysgol uwchradd ddarparu addysg rhyw, a rhaid iddynt gadw cofnod ysgrifenedig; Nid oes raid iddynt, ond gall ysgolion cynradd benderfynu a ydynt am gynnwys addysg rhyw yng nghwricwlwm yr ysgol a chadw cofnod ysgrifenedig *Adran 352 (1) (c) o Ddeddf Addysg 1996. Nid oes raid i ysgolion cynradd gael polisi o'r fath, ond gallant benderfynu a ydynt am gynnwys addysg rhyw yng nghwricwlwm yr ysgol a chadw cofnod*
- **Polisi Anghenion Addysgol Arbennig** Pob Ysgol *Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan AALlau) 2002; Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*
- **Gweithdrefnau Disgyblaeth, Ymddygiad, Gallu a Chwynion Staff** Pob Ysgol *Adran 35 a 37 o'r Ddeddf Addysg 2002; Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006; Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2007*
- **Polisi Camddefnyddio Sylweddau** Mae Cylchlythyr 17/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc' yn argymell yn gryf y dylai bob ysgol gael polisi clir i ymdrin â materion camddefnyddio sylweddau

Y polisïau a restrwyd yw'r rheiny y mae dyletswydd ar gyrff llywodraethol ysgolion i'w cynhyrchu a'u mabwysiadu ar gyfer eu hysgolion. Ni ddylid drysu'r rhain â pholisïau eraill a benderfynir yn genedlaethol y mae dyletswydd statudol ar gyrff llywodraethol i'w gweithredu, er enghraifft safonau maethol, gweithredoedd addoli ar y cyd, ayb.

POLISÏAU NAD YDYNT YN STATUDOL A ARGYMHELLIR

- **Polisi Diogelu Data** Pob Ysgol *Deddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth cysylltiedig*
- **Iechyd a Diogelwch** Yr AALl sy'n gyfrifol am osod y polisi mewn Ysgolion Cymunedol, Cymunedol Arbennig ac Ysgolion a Reolir *(cyfeiriwch at Ganllaw Llywodraethwyr Ysgol i'r Gyfraith am y sefyllfa deddfwriaethol a manylion)*
- **Polisi Gosod** Pob Ysgol *Adran 13 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*
- **Polisi Gwisg Ysgol** Pob Ysgol *Mae cyfarwyddyd i gyrff llywodraethol ar wisg ysgol a pholisïau ymddangosiad ar gael yn http://new.wales.gov.uk/dcells/publications/guidanceandinformation/uniformandappearance/guidanceschooluniforme.pdf?lang=en*
- **Datblygu Cynaladwy** Pob Ysgol *Y Fframwaith Arolygu ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*

- **Polisi Chwythu'r Chwiban** *Gweithdrefnau ar gyfer Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Model - Cylchlythyr 036/2007*
- **Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gyfan** Argymhellir erbyn Medi 2008 *Cynllun Gweithredu Blas am Oes - Dogfen Wybodaeth LICC Rhif 026/2007*
- **Polisi e-Ddiogelwch** Pob Ysgol

DOGFENNAU STATUDOL

(Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith fod y corff llywodraethol yn cynhyrchu, yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi)

- **Cynllun Hygyrchedd** *Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA) 1995 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Anghenion Arbennig ac Anabledd 2001); DGA Rhan 4; DGA Rhan 3; Cynllunio i Gynyddu Mynediad i Ysgolion ar gyfer Disgyblion Anabl – Cylchlythyr 15/2004 CCC*
- **Cynllun Gweithredu yn dilyn arolwg ysgol** Pob Ysgol Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996, Adran 17
- **Cynllun Cydraddoldeb i bobl Anabl** Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Rhagfyr 2006
- **Lwfansau Llywodraethwyr (Cynlluniau ar gyfer Talu)** Pob Ysgol (lle mae'r corff llywodraethol yn cytuno i dalu treuliau) *Adran 19(3) o Ddeddf Addysg 2002; Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005*
- **Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni** Pob Ysgol *Deddf Addysg 2002, Adran 30; Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001; Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr – Cylchlythyr Rhif 15/2001 Rhagwelir y caiff cyfarwyddyd diwygiedig gan y Cynulliad ei gyflwyno yn 2008*
- **Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth** Pob Ysgol *Adran 19 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Rhyddid Gwybodaeth – Cynllun Cyhoeddi Model ar gyfer Ysgolion – Cylchlythyr 09/2004*
- **Cytundebau Cartref-Ysgol** Pob Ysgol *Adrannau 110 ac 111 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*
- **Offeryn Llywodraethu** Pob Ysgol *Adran 20 o'r Ddeddf Addysg 2002; Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005*
- **Cofnodion a phapurau a gafodd eu hystyried yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol a'i Bwyllgorau** Pob Ysgol *Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) DS heblaw cyfeiriadau at unrhyw fusnes y mae corff llywodraethol yn ystyried ei fod yn gyfrinachol*
- **Prosbectws** Pob Ysgol *Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999; Prosbectysau Ysgolion - Cylchlythyr Rhif 14/2001*
- **Cofrestr o Ddisgyblion** Pob Ysgol *Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995; Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 2001*
- **Cofrestr o Ddiddordebau Busnes Penaethiaid a Llywodraethwyr** Pob Ysgol *Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol AALlau) (Cymru) 2004*
- **Gosod Targedau ar gyfer Ysgolion** Pob Ysgol *Rheoliadau Addysg (Targedau Perfformiad ac Absenoldeb heb Awdurdod Ysgolion) (Cymru) 1999; Rheoliadau Addysg (Targedau Perfformiad Ysgol ac Absenoldeb heb ei Awdurdodi) (Diwygio) (Cymru) 2006*
- **Cynlluniau Trosglwyddo** Pob ysgol uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd sy'n bwydo iddynt *Deddf Addysg 2002; Cyfarwyddyd ar Baratoi Cynlluniau Trosglwyddo Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 – Cylchlythyr 30/2007*

DOGFENNAU NAD YDYNT YN STATUDOL A ARGYMHELLIR

- **Cynllun Datblygu'r Ysgol** Pob Ysgol *Ystyrir fod hon yn ddogfen hanfodol, gan ei bod yn cyfrannu tuag at y dasg o godi safonau*
- **Strwythur Staffio'r Ysgol** Pob Ysgol *Manylion strwythur staffio'r ysgol*
- **Adroddiad hunan-arfarnu** Pob Ysgol *Ystyrir fod hon yn ddogfen hanfodol, gan ei bod yn cyfrannu tuag at y dasg o godi safonau – Estyn Gorffennaf 2005*

Mae'r Awdurdod wedi datblygu amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau model i ysgolion eu mabwysiadu / addasu, ac mae'r rhain ar gael i'w lawrlwytho o'r Llyfrgell Dogfennau Allweddol ar Fewnrwyd y Gwasanaeth Ysgolion a Chynhwysiant [http://intranet.powys.gov.uk]. Mae'r rhain yn adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol – Cyfraith Cyflogaeth, Deddfau Iechyd a Diogelwch, ayb – a, lle'n briodol, maent wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad ag undebau.

Am fwy o wybodaeth neu gymorth, cysylltwch â Rosie Davies ar 01597 826457
neu anfonwch e-bost at rosie.davies@powys.gov.uk

Rosie Davies
Swyddog Polisi: Ysgolion a Chynhwysiant